Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bodedern

**Y Caban**
**Ysgol Gynradd Bodedern**
**Bodedern**
**Ynys Mon**
**LL65 3TZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Bodedern

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Bodedern |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal ddydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Bodedern |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Linda Jones |
| Person â gofal | Sandra Jones |
| Nifer y lleoedd | 18 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 13 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.30 – 3 Llun i Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hydref 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 24/05/2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 05/02/2024 |
| Ychydig iawn o blant sydd yn dod o gartrefi lle mae Cymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Datblygu dulliau holi yr ymarferwyr, er mwyn ehangu medrau meddwl plant

A2 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau'n effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn natblygiad y plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan bron bob un o'r plant lais cryf a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau'n hyderus wrth chwarae. Mae'r rhan fwyaf yn symud rhwng gwahanol weithgareddau yn hyderus ac yn dilyn eu hoffterau personol yn effeithiol. Er enghraifft, mae plant yn helpu ei hunain i adnoddau o'r cwpwrdd, yn eu dychwelyd a chymryd adnodd arall. Maent yn hyderus ac yn dilyn eu hoffterau personol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn mwyhau defnyddio'r lechen gyfrifiadurol ac wrth eu bodd yn gwneud y car electronig i symud o bellter. Mae'r plant yn hyderus i ddweud os nad ydynt eisiau cymryd rhan mewn gweithgaredd, er enghraifft doedd rhai ddim eisiau dawnsio ac roeddynt yn hyderus i beidio â gwneud.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i ofyn cwestiwn neu holi am rywbeth gan eu bod yn cael ymateb da gan ymarferwyr. Mae bron bob plentyn yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn cyrraedd y lleoliad yn fodlon ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae'r plant sy'n llai hyderus yn ymateb yn dda i'r cymorth y cânt gan ymarferwyr i'w helpu i setlo. Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgaredd grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth greu crempog, maent yn cymryd eu tro i gymysgu ac ychwanegu cynhwysion. Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae cyffrous. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn defnyddio rhwydi pysgota i ddal trychfilod tu allan.

Mae bron bob plentyn yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gydag ymarferwyr a'u ffrindiau ac yn mynd at ymarferwyr i rannu eu chwarae neu am gysur. Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, ac maent yn sgwrsio a chwerthin wrth chwarae gyda'r fferm neu adeiladu tŷ allan o flociau. Maent yn mwynhau symud o un weithgaredd i'r nesaf, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Maent yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell chwarae ac yn yr ardal allanol. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth da iawn. Er enghraifft, maent yn torri ffrwyth eu hun amser byrbryd ac yn arllwys llefrith neu ddŵr mewn i gwpan. Maent yn defnyddio'r tŷ bach yn hyderus, ac yn golchi a sychu eu dwylo yn ddi-gymell.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da ar gyfer plant. Maent yn gweithredu polisïau priodol i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp.

Mae ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau ac yn darparu cyfleoedd addas i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Maent yn atgoffa plant am beryglon a sut i gadw'n ddiogel, er enghraifft trwy egluro y risg iddi nhw gwympo wrth ddringo ar fyrddau a chadeiriau. Yn ogystal, maent yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau yn briodol. Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad, ac yn gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn gwrando ar safbwyntiau plant, ac yn ymateb yn bositif iddynt. Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac yn hyderus ar sut i weithredu petai ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n effeithiol â'r plant gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn ffurfio perthynas fuddiol iawn gyda'r plant. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol ac yn mynd ati'n ddiffwdan i dacluso. Mae ymarferwyr yn defnyddio iaith gadarnhaol gyda'r plant, sydd hefyd yn hyrwyddo ymddygiad da ac yn cefnogi'r plant i reoli eu dewisiadau yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol iawn. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson i drochi ac atgyfnerthu geirfa a phatrymau iaith gyda'r plant. Maent yn sicrhau bod y plant yn gartrefol ac yn hapus gan drafod cyfleoedd chwarae gyda'r plant a holi chwestiynau. Mae gan y lleoliad brosesau effeithiol mewn lle ar gyfer cwrdd ag anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio ystod o brofiadau dysgu diddorol sy'n annog datblygiad bob plentyn. Maent yn ymateb yn briodol i ofynion Cwricwlwm i Gymru trwy addasu'r ddarpariaeth a'u dulliau dysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plentyn sy'n eu galluogi i ymateb yn bositif i'w diddordebau personol a'u hanghenion yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio ac yn modelu gweithgareddau buddiol sy'n cefnogi chwarae rhydd ac arbrofol y plant yn ddeallus. Mae ymarferwyr yn deall pryd a sut i ymyrryd er mwyn cyfoethogi'r dysgu. Yn gyffredinol, maent yn holi plant yn addas er mwyn ehangu eu dealltwriaeth. Er hyn, nid ydynt bob tro'n holi plant yn ddigon effeithiol er mwyn datblygu eu medrau meddwl a'u dealltwriaeth ymhellach.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd da i ddatblygu medrau llythrennedd y plant. Maent yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fodelu'r iaith Gymraeg yn effeithiol, drwy gyflwyno'r eirfa berthnasol a chanu bywiog. Maent yn cymell y plant yn effeithiol i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar trwy greu marciau gydag amrywiaeth o gyfryngau a'u hannog i drin a thrafod llyfrau. Mae ymarferwyr hefyd yn darparu cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau rhifedd y plant drwy brofiadau dilys. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau mesur a chyfri trwy ddefnyddio a thrin cynhwysion ac offer coginio i greu cymysgedd crempogau. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau o ddatblygiad a chyflawniadau plant yn addas. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon pwrpasol i lywio'r camau nesaf yn eu dysgu a'u datblygiad.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas waith da gyda'r plant. Maent yn darparu cyfnodau hir o chwarae di-dor i blant archwilio eu syniadau ac i ddatblygu dyfalbarhad. Er enghraifft, wrth herio'r plant i fod yn greadigol gyda thoes ac wrth greu bwydydd gwahanol allan o bridd a gwair yn y gegin fwd. Maent yn sicrhau cyfleodd da i blant datblygu eu medrau corfforol a datrys problemau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn eu hannog i yrru beiciau o amgylch rhwystrau ac i adeiladu gydag amrywiaeth o adnoddau. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau digidol y plant yn briodol. Maent yn cynnig cyfleoedd addas i blant ddatblygu eu medrau digidol trwy ddefnyddio ystod addas o gyfarpar fel camerâu digidol, llechen gyfrifiadurol a thafol digidol.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol, a chymdeithasol yn llwyddiannus. Maent yn trefnu ystod dda o brofiadau dysgu a chwarae diddorol i'r plant, sy'n meithrin eu chwilfrydedd ac i werthfawrogi rhyfeddodau'r byd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn plannu ac arsylwi ar flodau yn tyfu, yn ogystal â mynd ar deithiau natur yn yr ardal leol. Maent yn dathlu ac yn

hyrwyddo diwylliant Cymru’n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac astudio hanes Santes Dwynwen a chreu cardiau. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo a dathlu amrywiaeth yn briodol trwy ystod dda o adnoddau amlddiwylliannol ac astudio gwyliau arbennig, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae’r arweinydd yn darparu amgylchedd addas, diogel a glân ar gyfer plant. Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau cyson ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd a threfniadau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Maent yn rheoli heintiau’n effeithiol gan leihau risg i iechyd a diogelwch plant. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn llunio ac yn gweithredu asesiadau risg digonol ar gyfer pob ardal yn ddyddiol.

Mae’r amgylchedd yn gynhwysol ac mae bob plentyn yn cael mynediad cyfartal i’r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae’r brif ystafell yn groesawgar a chyfeillgar, ac yn cynnig amgylchedd da ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd da o’r ystafell i ddarparu ardaloedd dysgu trefnus sy’n annog plant i’w defnyddio’n n annibynnol. Er enghraifft, mae’r ardal chwarae rôl yn hyrwyddo profiadau dysgu’n dda trwy gynnig adnoddau llestri ac offer coginio go iawn, sydd ar lefel isel. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i ddefnyddio’r gofod chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd. Yno, mae’r plant yn mwynhau cyfleoedd i reidio beics, dringo, chware yn y twba dŵr neu ymlacio yn y caban pren gyda llyfr. Mae’r amgylchedd yn caniatáu i blant gael y cyfle i fynd i’r tai bach a golchi’u dwylo’n annibynnol.

Mae'r arweinydd yn sicrhau y gall bron bob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer o ansawdd da, sy’n briodol i’w hoedran. Mae basgedi a silffoedd agored i’r plant ymchwilio er mwyn datblygu eu medrau annibynnol yn gadarn. Mae'r arweinydd hefyd yn darparu adnoddau buddiol i annog chwilfrydedd plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad plant yn yr awyr agored drwy gynnig ystod dda o adnoddau sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a’u diddordeb. Er enghraifft, mae’r plant yn plannu, tyfu ac yn bwyta y llysiau a ffrwythau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy’n cael ei gyfleu’n llwyddiannus yn y datganiad o ddiben, sy’n llywio cyfeiriad pwrpasol i holl waith y lleoliad. Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi ymroddiad yr ymarferwyr ac yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau a’u dealltwriaeth. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr ac arweinwyr yn cydweithio’n effeithiol fel tîm sy’n hyrwyddo awyrgylch ysgogol a chefnogol ar gyfer y plant.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau hunanwerthuso cadarn er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella. Maent yn gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r cynllun gwella’n rheolaidd er mwyn gwella’r ddarpariaeth yn barhaus. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i wella ar ddulliau cyfathrebu

a rhannu gwybodaeth gyda rhieni a gwarchodwyr am gynnydd eu plant a'u hysbysu o ddigwyddiadau pwysig.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'u hunain a'r ymarferwyr ac maent yn cydweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd i sicrhau gwelliannau ar draws y lleoliad. Mae arweinwyr yn rheoli ymarferwyr yn gydwybodol trwy eu gweithdrefnau goruchwylio ac arfarnu. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau atebolrwydd yr holl ymarferwyr o ran safon y ddarpariaeth a deilliannau plant yn ogystal â chynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu'n broffesiynol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant anghenion dysgu ychwanegol er mwyn cefnogi anghenion a sicrhau mynediad llawn i holl blant y lleoliad. Mae gan arweinwyr prosesau cadarn ar gyfer recriwtio ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwariant y gyllideb a grantiau yn erbyn targedau yn effeithiol ac yn dyrannu adnoddau'n ddoeth. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cyllido gwelliannau yn yr ardal allanol trwy ddarparu offer dringo deniadol o ansawdd da sy'n cyfoethogi profiadau corfforol a datrys problemau'r plant yn dda.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau buddiol gan gynnwys perthynas agos iawn â'r ysgol leol ac mae'r brifathrawes yn ymweld â'r lleoliad yn fisol. Mae'r plant yn ymweld â'r ysgol cyn cychwyn. Mae hyn yn gryfder ac yn sicrhau bod lles y plant yn flaenoriaeth gan bawb. O ganlyniad, mae'r plant yn hyderus iawn i drosglwyddo i'r ysgol ar gyfer cam nesaf eu haddysg.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/04/2024